Adroddiad ar

Ysgol Gymraeg Rhys Prichard

Heol Cilycwm
Llanymddyfri
Sir Gaerfyrddin
SA20 0HY

Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Rhys Prichard

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Rhys Prichard |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 212 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 167 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 16 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 8.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 4.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 29.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 4.8% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 03/09/2018 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 23/09/2019 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 27/04/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn rhan bwysig o'r gymuned leol ac mae arweinwyr a staff yn cydweithio'n effeithiol i feithrin balchder disgyblion yn eu hysgol a'u hardal. O dan arweiniad ysbrydoledig y pennaeth, maen nhw'n hyrwyddo gwerthoedd yr ysgol yn llwyddiannus fel rhan ganolog o'i gwaith. Mae disgyblion yn ymddwyn yn barchus ac yn gwrtais at ei gilydd a staff. Mae'r rhan fwyaf yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn gwerthfawrogi'r profiadau sy'n cael eu darparu ar eu cyfer.

Mae staff yn darparu amgylchedd cynhwysol a chroesawgar sy'n meithrin lles a datblygiad disgyblion yn dda. Mae llawer, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cyson. Mae medrau llythrennedd disgyblion yn datblygu'n gadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg, er hyn, nid ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth siarad â'i gilydd. Mae medrau mathemateg a digidol y disgyblion yn datblygu'n dda.

Mae staff yn meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol â disgyblion ac yn gosod disgwyliadau uchel ar eu cyfer. Maent yn holi'r disgyblion yn dda ac yn rhoi adborth llafar effeithiol sy'n cefnogi'r dysgu. Er hyn, nid yw athrawon yn cynllunio'r ddarpariaeth yn digon effeithiol bob amser er mwyn herio'r disgyblion mwy abl.

Mae staff yn cynllunio'r cwricwlwm yn fedrus ac yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau diddorol i ddisgyblion, gan gynnwys cyfleoedd iddynt gymhwyso eu medrau mewn gweithgareddau buddiol a sefyllfaoedd go iawn trwy'r dull 'Profiadau Prichard'. Mae defnydd da o'r amgylchedd allanol yn cyfoethogi'r dysgu yn llwyddiannus. Er hyn, nid yw staff yn darparu cyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth disgyblion yn ddigon cyson. Mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gyfrannu at fywyd yr ysgol trwy bwyllgorau yn datblygu eu medrau arwain yn effeithiol.

Mae'r corff llywodraethol yn weithgar ac yn adnabod cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella yn hynod werthfawr. Mae staff yn elwa ar gyfleoedd dysgu proffesiynol ac yn cydweithio ag ysgolion eraill i wella'r addysgu a'r dysgu. Mae staff yn cyfathrebu'n gyson â rhieni, gan gryfhau'r cysylltiad rhwng yr ysgol a'r cartref yn gyson.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Gwella medrau llafar Cymraeg disgyblion

A2 Darparu her yn gyson i ddisgyblion, a'u cefnogi i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae'r ysgol yn rhan greiddiol o'r ardal leol ac mae arweinwyr a staff yn cydweithio'n hynod effeithiol i feithrin balchder disgyblion at ei chymuned. Trwy arweinyddiaeth ysbrydoledig y pennaeth, caiff gwerthoedd yr ysgol eu hyrwyddo'n llwyddiannus ymysg disgyblion a phartneriaid. Mae hyn yn cefnogi ymddygiad cadarnhaol ymysg disgyblion ac maent yn dangos cwrteisi a pharch at ei gilydd a staff. Mae'r rhan fwyaf yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac maent yn gwerthfawrogi'r profiadau gwerthfawr sy'n cael eu cynllunio ar eu cyfer.

Un o rinweddau nodedig yr ysgol yw bod staff yn darparu amgylchedd ddysgu groesawgar a chynhwysol sy'n cefnogi lles a dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cyson mewn ystod dda o fedrau. Mae medrau llythrennedd llawer yn datblygu'n gadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Erbyn diwedd cyfnod disgyblion yn yr ysgol, mae llawer yn darllen a dehongli testunau amrywiol yn effeithiol, ac maent yn datblygu eu gwybodaeth am iaith er mwyn ysgrifennu'n estynedig yn fedrus. Er hyn, nid yw disgyblion yn siarad Cymraeg yn ddigymell â'u cyfoedion wrth ddysgu a chwarae. Mae hyn yn llesteirio eu hyder wrth gyfathrebu ac yn arafu eu datblygiad ieithyddol.

Mae gan yr holl staff berthnasoedd gwaith cadarnhaol â'r disgyblion. Maent yn adnabod eu hanghenion lles yn fedrus ac yn ymateb i'w diddordebau a'u dysgu yn dda. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion ac maent yn eu cefnogi i symud ymlaen yn eu dysgu. Mae staff yn defnyddio dulliau holi medrus ac adborth llafar sy'n annog disgyblion i ymateb yn estynedig er mwyn gwella eu medrau, dwysáu eu gwybodaeth ac ehangu eu dealltwriaeth o'r themâu dysgu. Er hyn, nid yw darpariaeth ar gyfer ychydig iawn o ddisgyblion mwy abl yn ddigon heriol bob amser.

Mae staff yn cydweithio'n ddiwyd i gynllunio cwricwlwm sy'n darparu ystod dda o weithgareddau i gefnogi llawer o ddisgyblion i wella eu medrau dros amser, gan gynnwys medrau mathemateg a digidol. Trwy gyfrwng gweithgareddau buddiol a'r dull 'Profiadau Prichard', maent yn manteisio ar gyfleoedd perthnasol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau mewn cyd-destunau go iawn yn yr ardal leol a thu hwnt. Fel rhan o'r ddarpariaeth, mae staff yn manteisio i'r eithaf ar yr amgylchedd dysgu allanol a'r adnoddau er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion, er enghraifft wrth barhau i ddatblygu medrau

corfforol amrywiol disgyblion mewn gwersi nofio yn y pwll sydd ar safle'r ysgol. Er hyn, nid yw athrawon yn cynllunio cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn ddigon cyson. Yn gyffredinol, mae staff yn gor-arwain y disgyblion gan gyfyngu ar eu gallu i wneud penderfyniadau am beth yr hoffent ddysgu a sut i gyflwyno eu gwaith. At ei gilydd, ar draws yr ysgol, mae cyflwyniad gwaith mwyafrif y disgyblion yn briodol.

Mae staff yn darparu profiadau buddiol i ddisgyblion ehangu eu gwybodaeth a dealltwriaeth am wahanol grefyddau a moesau trwy brofiadau gwerthfawr, sy'n cynnwys trwy wahodd ymwelwyr i gynnal sesiynau cyd-addoli yn yr ysgol ac wrth drefnu ymweliadau addysgol i'r ardal leol. Drwy ystod o brofiadau perthnasol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn llwyddiannus ac yn cymryd rhan mewn amrywiaeth gyfoethog o weithgareddau. Mae hyn yn cefnogi'r disgyblion i fod yn ddinasyddion hapus, parchus ac hyderus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer meithrin lles disgyblion yn gryfder, gyda staff yn cynnig gofal cynhaliol ac ystod o raglenni cymorth buddiol er mwyn cefnogi disgyblion i ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion ag ADY, ynghyd â'r disgyblion sydd o aelwydydd incwm isel, yn gynhwysfawr ac yn cael ei chydlynu'n hynod effeithiol. Mae staff yn ymateb yn llwyddiannus i anghenion y disgyblion ac yn cydweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol yn bwrpasol er mwyn darparu cefnogaeth fuddiol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn mewn perthynas â'u targedau unigol a'u mannau cychwyn. Mae staff yn cefnogi'r disgyblion i nodi'r camau nesaf yn eu dysgu ar fynediad ac wrth iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn effeithiol.

Trwy bwyllgorau llais y disgybl, mae disgyblion yn datblygu medrau arwain cadarn. Mae'r aelodau'n cymryd cyfrifoldeb am gynllunio a threfnu gweithgareddau ar draws yr ysgol ac yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr wrth weithredu'r amcanion datblygu y pwyllgorau hyn. Mae hyn yn cefnogi lles a dysgu'r disgyblion yn fuddiol, sy'n cynnwys gwaith aelodau'r cyngor ysgol i sefydlu Hafan Heddwch ar yr iard i sicrhau lle tawel i ddisgyblion gymdeithasu a myfyrio.

Mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r agweddau i'w datblygu, ac maent yn herio a chefnogi arweinwyr yn fedrus fel rhan o'r broses hunanwerthuso. Mae eu hymrwymiad i'r prosesau hyn yn hynod werthfawr a chaiff y canfyddiadau monitro eu hymgorffori'n effeithiol i flaenoriaethau datblygu'r ysgol. Trwy hyn, mae agweddau fel safonau darllen ac ysgrifennu disgyblion wedi cryfhau dros amser.

Mae staff yn cael cyfleoedd dysgu proffesiynol bwriadus sy'n cefnogi eu datblygiad personol a blaenoriaethau'r ysgol. Trwy gydweithio'n fewnol fel rhan o'r dull triawdau a chynnal sgyrsiau proffesiynol gyda staff ysgolion lleol, cânt gyfle i rannu ac efelychu arferion addysgu a dysgu effeithiol. Mae hyn yn eu harwain i fyfyrio a mireinio'r cynllunio

ac addasu'r ddarpariaeth ymhellach er mwyn ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn eu gwaith a'u cefnogi i wneud cynnydd yn eu medrau ar draws y meysydd dysgu.

Mae gan staff berthynas gadarn â theuluoedd yr ysgol. Mae arweinwyr yn cynhyrchu 'Post Prichard' sy'n hysbysu rhieni am faterion pwysig fel blaenoriaethau'r ysgol, strategaethau codi presenoldeb a dyddiadau allweddol. Mae hyn yn cryfhau'r cysylltiad rhwng yr ysgol a'r cartref ac yn cael effaith gadarnhaol ar fwynhad disgyblion o weithgareddau'r ysgol, fel wrth ymarfer eu doniau perfformio a chwaraeon.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/07/2026